**Rhif: WG28221**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid

Gweledigaeth ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru

Dyddiad cyhoeddi: 24 Mawrth 2016
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 9 Mehefin 2016

OGL © Hawlfraint y Goron

| | |
|---|---|
| **Trosolwg** | Mae'r ymgynghoriad hwn yn amlinellu cynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol newydd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.<br><br>Mae'r cynigion yn berthnasol i gyrff statudol a gwirfoddol sy'n darparu Gwasanaethau Ieuenctid i bobl ifanc 11-25 mlwydd oed. |
| **Sut i ymateb** | Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r cyfeiriad isod **erbyn 9 Mehefin 2016 fan bellaf**.<br><br>Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgynghoriadau |
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2014-2018 |
| **Manylion Cysylltu** | I gael rhagor o wybodaeth:<br><br>Enw/post generig<br><br>Cyfeiriad: Y Gangen Ymgysylltu ag IeuenctidGrŵp Addysg a Gwasanaethau CyhoeddusB3 Blaen<br>Llywodraeth Cymru<br>Sarn Mynach<br>Cyffordd Llandudno<br>LL31 9RZ<br><br>E-bost: YouthWork@cymru.gsi.gov.uk<br><br>Rhif ffôn: 0300 062 5224 |
| **Diogelu Data** | Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.<br><br>Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi |

crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

**Cynnwys**


| | |
|---|---|
| Rhagair gan y Gweinidog | 5 |
| Cyflwyniad | 6 |
| Cyd-destun y polisi | 7 |
| Ein gweledigaeth | 7 |
| Atodiad 1: Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru | 12 |
| Atodiad 2: Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Arfaethedig | 13 |

## Rhagair gan y Gweinidog



Mae gan waith ieuenctid da botensial gwych i gyfoethogi bywydau pobl ifanc yng Nghymru, naill ai trwy'r profiadau mae'n agor y drws atynt neu trwy'r cymorth mae'n ei gynnig. Rwy'n ymfalchïo'n fawr yng ngwaith darparwyr Gwaith Ieuenctid statudol a gwirfoddol. Rwy'n cydnabod fod gan waith ieuenctid o ansawdd uchel gyfraniad hanfodol i'w wneud at gyflawni llawer o amcanion Llywodraeth Cymru.

Gyda'n gilydd, mae angen i ni gryfhau gallu'r sector gwaith ieuenctid i ddangos sut mae'n ychwanegu gwerth gwirioneddol at fywydau pobl ifanc. Rwy'n cydnabod nad yw hyn yn rhwydd oherwydd bydd union natur cymorth a darpariaeth yn aml iawn yn golygu na ellir eu mesur trwy ddulliau syml bob tro.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu fy nghynigion ynghylch fframwaith canlyniadau. Rwy'n gwahodd ac yn croesawu eich safbwyntiau ynghylch y cynigion a amlinellir yn y ddogfen hon. Bydd eich cyfraniad yn helpu i sicrhau ein bod ni'n sefydlu'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol priodol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.



# Cyflwyniad

Mae cymeriad unigryw gwaith ieuenctid yn seiliedig ar berthynas wirfoddol rhwng pobl ifanc a gweithwyr ieuenctid. Yn y ddogfen *Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenct*id (2012), nodwyd mai prif bwrpas gwaith ieuenctid yw:

'galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan weithio gyda hwy i hybu eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol, i'w galluogi i feithrin eu llais a chwarae rhan mewn cymdeithas a chyrraedd eu potensial llawn.'

Mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cynnig cyfleoedd dysgu sydd yn addysgol, yn fynegiannol, yn gyfranogol, yn gynhwysol ac yn rymusol [1].

Rydym ni'n cydnabod fod darparwyr gwaith ieuenctid yn cyfrannu mewn sawl ffordd at ddatblygiad a llesiant pobl ifanc a'u cymunedau.  Teimlir eu heffaith yn y gymuned ehangach yn ogystal ag ym mywyd unigolion, trwy lefelau uwch o gyflogaeth a lleihad mewn costau trwy droi sylw rhai oddi wrth droseddu neu annog rhagor o gyfrifoldeb personol am iechyd.  Nodir llawer o'r buddion ehangach hyn ym mhapur Llywodraeth Cymru ynghylch llesiant, 'Y Gymru a Garem' (2015), â'i saith nod ar gyfer gwlad sy'n 'llewyrchus, cydnerth, iachach a mwy cyfartal'. Cymru lle ceir 'cymunedau cydlynus, â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Gall gwaith ieuenctid wneud llawer iawn i ehangu cwricwlwm yr ysgol a chyfrannu'n sylweddol at ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. Bydd gallu cael gwybodaeth a chymorth yn rhwydd, er enghraifft, yn cynorthwyo i gyflawni'r nod o sicrhau dinasyddion gwybodus. Bydd cyfrannu at gyngor ieuenctid lleol yn helpu pobl ifanc i ddadansoddi dadleuon a dysgu am eirioli neu gael profiad o hynny. Gall gwaith ieuenctid da helpu i ddatblygu sgiliau megis datrys problemau, arweinyddiaeth, datblygu perthnasoedd a gwaith tîm; bydd pob un ohonynt yn helpu pobl ifanc i fod yn hyderus ac yn uchelgeisiol ynghylch eu dyfodol.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig dull gweithredu sydd wedi'i fwriadu i helpu gweithwyr ieuenctid, eu rheolwyr, hyfforddwyr a llunwyr polisi, i gynllunio a gwerthuso sut gellir trosi amcanion eang ac uchelgeisiol ynghylch llesiant yn wasanaethau i bobl ifanc, a beth fyddai'r blaenoriaethau i waith ieuenctid wyneb yn wyneb.

[1] 1 Gwaith Ieuenctid yng Nghymru: Egwyddorion a Dibenion (WLGA, 2013) http:// http://www.wlga.gov.uk/cyhoeddiadau-dysgu-gydol-oes-hamdden-a-gwybodaeth/youth-work-in-wales-principles-and-purposes-january-2013.

## Cyd-destun y polisi

Mae [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru 2014 – 2018] yn datgan bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru, i gryfhau gallu'r sector gwaith ieuenctid i arddangos canlyniadau ac effaith gwaith ieuenctid.

Ym Mawrth 2016, fe wnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg gyhoeddi Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru (gweler Atodiad 1). Mae'n amlinellu disgwyliadau sylfaenol Llywodraeth Cymru ynghylch gwaith ieuenctid i bobl ifanc ledled Cymru. Cafodd ei lunio i sicrhau fod yr amgylchiadau ar gyfer darpariaeth o'r fath ar gael yn fwy cyson i bob person ifanc yng Nghymru wrth iddynt dyfu'n oedolion, ac y gellir ei addasu yn unol ag anghenion a buddiannau newidiol unigolion a chymunedau.

## Ein gweledigaeth

Bwriad ein fframwaith canlyniadau arfaethedig yw helpu sefydliadau gwaith ieuenctid i gynllunio a gwerthuso. Bydd y sawl sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn lleoliadau gwahanol, boed yn weithwyr proffesiynol neu'n wirfoddolwyr, yn cael eu cynorthwyo trwy ddeall yn glir beth yw'r canlyniadau maent yn eu ceisio a barnu pa mor llwyddiannus yw eu hymdrechion i gyflawni'r amcanion maent wedi'u pennu gyda phobl ifanc. Mae gwerthuso ar y lefel hwn yn fath o hunanasesu ac adfyfyrio rheolaidd i nodi beth sydd wedi gweithio'n dda a beth ellir ei wneud yn wahanol y tro nesaf. Gellir ei ddefnyddio hefyd i lunio adroddiadau ynghylch effeithlonrwydd ar gyfer darparwyr ac arianwyr gwasanaethau. Efallai bydd sefydliadau yn dymuno cofnodi cyfanswm eu gwirfoddolwyr a'r hyfforddiant a gânt neu asesu costau cynnig gwahanol fathau o ddarpariaeth. Mae angen i reolwyr a darparwyr gwasanaethau wybod am ansawdd y ddarpariaeth a gynigir er mwyn cynllunio gwelliannau. Bydd gwneuthurwyr polisi ac arianwyr, yn cynnwys y Llywodraeth, yn dymuno gwybod pa mor effeithiol yw'r gwaith er mwyn cael sicrwydd ynghylch unrhyw arian cyhoeddus a fuddsoddir ynddo ac efallai byddant yn ceisio cael tystiolaeth trwy gynnal gwerthusiad mwy ffurfiol o'r canlyniadau a'r effaith cymdeithasol ehangach a gyflawnir. Ni ellir casglu'r holl dystiolaeth ynghylch amrywiaeth mor helaeth o ddibenion trwy un fformat, ond defnyddir amrywiaeth o ddulliau o gofnodi a llunio adroddiadau, yn cynnwys adroddiadau Estyn, yr archwiliad blynyddol o ddarpariaeth gwaith ieuenctid gan Lywodraeth Cymru, arolygon o safbwyntiau pobl ifanc, ac ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu adolygu'r holl ddulliau hyn ac ystyried amserlen gyson. Yn benodol, bydd yn ystyried arolwg cenedlaethol o safbwyntiau a phrofiadau pobl ifanc.

Nid yw barnu ynghylch canlyniadau ac effeithiolrwydd gwaith ieuenctid yn waith rhwydd. Gellir casglu rhai data ynghylch poblogaeth gyfan neu grŵp oedran penodol, ond gellir gwneud rhai asesiadau eraill ar lefel yr unigolyn yn unig, a gall priodoli effaith ymyraethau penodol fod yn broblemus, er enghraifft, yr effaith ar ymddygiad unigolyn yn y tymor hirach neu gyfuniad o effeithiau ar garfan, sefydliad neu sector cyfan. Gellir defnyddio sawl dull o gasglu tystiolaeth - trwy arsylwi, trwy hunan-adroddiadau gan unigolion, neu trwy ystadegau.

Gellir casglu dau fath o ddata yn gyffredinol; data meintiol, megis presenoldeb, a data ansoddol megis barn gweithiwr ieuenctid am ddatblygiad person ifanc. Mae'r ddau yn bwysig, ond nid y data hawsaf i'w casglu yw'r rhai mwyaf defnyddiol o reidrwydd, a chaiff llawer o ddangosyddion perfformiad eu cydnabod fel y sylfaen orau i wneud rhagor o ddadansoddi ac ymholi. Serch hynny, gan ystyried y rhybuddion hyn, mae casglu data

priodol yn angenrheidiol i sicrhau fod gwelliannau yn digwydd, ac mae’n ddoeth cychwyn trwy ystyried y disgwyliadau ynghylch beth ddylai fod ar gael i bobl ifanc ledled Cymru trwy gyfrwng gwaith ieuenctid. Bellach, amlinellir y disgwyliadau hyn yn ‘Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru’.

Mae’r siart canlyniadau isod yn dangos beth sydd angen ei sicrhau ar lefel y gwasanaeth cyfan (Cymru) i ategu Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru a gynlluniwyd i asesu argaeledd ac ansawdd gwaith ieuenctid mewn mannau gwahanol. Yn ogystal â chynnig arweiniad ynghylch barnu a chasglu data mewn ardaloedd lleol, mae'n darparu sylfaen i’r metrigau y dylid eu casglu yn flynyddol gan archwiliad Llywodraeth Cymru; ar gyfer arolygon ac adroddiadau Estyn, a'r dystiolaeth sy’n ofynnol i ddyfarnu Marc Ansawdd ar gyfer Gwaith Ieuenctid yng Nghymru.

## Y Siart Canlyniadau

| | Swyddogaeth | Dangosydd | Darperir yr wybodaeth gan | Ffynhonnell | Cyfraniad at y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol (gweler atodiad 2) |
|---|---|---|---|---|---|
| Pob ysgol uwchradd | Cyfraniad at ABCh a phrofiadau eraill yn yr ysgol gan weithwyr ieuenctid. | % o'r ysgolion sy'n cyfranogi | Ysgolion / gweithwyr ieuenctid – ynghylch natur y gwaith ieuenctid a ddarperir ac ar ba themâu, e.e. iechyd rhywiol, lles meddyliol a chanlyniadau e.e. presenoldeb, defnyddio'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu | Estyn / hunanasesiad gan weithwyr ieuenctid / archwiliad o waith ieuenctid | 05,06, 07,22 |
| Pob ysgol uwchradd a choleg | Defnydd o gyfleusterau chwaraeon/ celfyddydau gan unedau ieuenctid | % o ysgolion/colegau sy'n sicrhau fod y cyfleuster ar gael | Ysgolion/Colegau /Gwasanaethau Ieuenctid | Hunanasesiad gan weithwyr ieuenctid / archwiliad o waith ieuenctid | 15,16,19,25, 27 |
| Mannau cyfarfod a chyfleoedd amrywiol yn cynnwys rhai a gynigir trwy gyfrwng y Gymraeg. Antur awyr agored. Profiadau rhyngwladol. | Amrywiaeth o gyfleusterau ledled y wlad yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol. | Nifer y llefydd a'r mannau cyfarfod. Ymateb gan bobl ifanc; presenoldeb a chyfranogi. Niferoedd a % o'r garfan oedran. | Adroddiadau gan awdurdodau lleol a sefydliadau perthnasol | Adroddiadau archwilio blynyddol. Archwiliad Llywodraeth Cymru. Adroddiadau Estyn ar ansawdd a digonolrwydd | 20, 21,26 |
| Cydnabod / Achredu cyflawniadau | Cydnabod, ac os bydd hynny'n briodol, achredu datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. | Nifer a lefel y dyfarniadau lleol a chenedlaethol a enillir e.e. Gwobr Dug Caeredin, ASDAN, Gwobr Geidio'r Frenhines | Adroddiadau gan gyrff dyfarnu/sefydliadau | Archwiliad o waith ieuenctid | 05,06,09 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr ieuenctid datgysylltiedig / allgymorth Prosiectau arbenigol | Cysylltiadau â phobl ifanc 'digyswllt' neu grwpiau penodol/themâu e.e. addysg iechyd | Y nifer a nifer y mannau cyfarfod a'r adegau e.e. prosiectau yn ystod gwyliau'r haf<br><br>Amrywiaeth o grwpiau yn cael gwasanaeth ac amrywiaeth o themâu yn cael eu trafod, troi sylw pobl ifanc oddi wrth droseddu | Adroddiadau gan awdurdodau lleol a sefydliadau | Archwiliad o waith ieuenctid<br><br>Astudiaethau ymchwil | 15,16,20,21 |
| Gwirfoddol | Ennyn diddordeb pobl ifanc mewn mathau amrywiol o weithredu dinesig | Nifer y bobl ifanc sy'n cyfranogi. % o'r prosiectau a gychwynnir gan bobl ifanc | Adroddiadau gan awdurdodau lleol a sefydliadau (yn cynnwys elusennau sy'n defnyddio gwirfoddolwyr ifanc) | Archwiliad o waith ieuenctid | 18,21,22 |
| Pobl ifanc yn cyfrannu at y gwaith o wneud penderfyniadau ledled Cymru | Trefniadau i sicrhau cyfranogiad gan bobl ifanc yn ardaloedd pob awdurdod lleol ac yn genedlaethol, yn gysylltiedig â'r safonau cyfranogi. | Nifer y fforymau/cynghorau ayyb sydd wedi'u sefydlu. Y nifer sy'n cyfranogi a % y rhai sy'n cyfranogi a nodweddion eraill safonau cyfranogi. Natur y penderfyniad a wneir â chyfraniad y bobl ifanc. | Adroddiadau gan bobl ifanc ynghylch y profiad. | Hunanasesiad gan y bobl ifanc ynghylch eu cyfraniad. Arddangos manylion unrhyw asesiadau o eiriolaeth gan gyrff allanol ayyb. | 17,19 |
| Gwybodaeth, Arweiniad a Chymorth – gwasanaeth cyfryngau digidol | Pob person ifanc yn cael at y materion sy'n berthnasol iddynt hwy | Amrywiaeth y gwasanaethau a'r nifer sy'n eu defnyddio | Adroddiadau gan Gyrfa Cymru, gan awdurdodau lleol a sefydliadau ieuenctid | Profion 'cwsmer cudd'; arolwg o wybodaeth pobl ifanc | 19,24,22 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | ynghylch ffynonellau o gymorth a'u defnydd ohonynt | |
| Gweithlu medrus a hyfforddedig | Lefelau staffio mewn gwasanaethau / unedau / canolfannau | Y nifer a gyflogir, nifer y gwirfoddolwyr a'u lleoliadau gwaith | Adroddiadau gan awdurdodau lleol a sefydliadau | archwiliad o waith ieuenctid | 08,09 |
| Gweithlu medrus a hyfforddedig | Cymwysterau | Nodir yn ôl math/lefel | Adroddiadau gan gyflogwyr, ETS a CGA | archwiliad o waith ieuenctid | 08,09 |
| Gweithlu medrus a hyfforddedig | Cyfleoedd datblygu rheolaidd | Argaeledd cyfleoedd a'r nifer sy'n eu derbyn | Adroddiadau gan gyflogwyr a CGA | archwiliad o waith ieuenctid | 08,09 |

Mae gan lawer o sefydliadau gwaith ieuenctid ddull penodol o weithio gyda phobl ifanc, a gall eu rhaglenni a'u gwasanaethau amrywio yn fawr. Dylent ymateb i'r Siarter mewn dwy ffordd:

- Yn gyntaf, ystyried sut gallai eu darpariaeth gyd-fynd yn well â'r amrywiaeth o gyfleoedd y gellid sicrhau eu bod ar gael ledled y wlad, ac,

- yn ail, fel dewislen y gellid dewis gweithgareddau ohoni a fyddai'n ennyn diddordeb y bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy.

Beth bynnag fo'u dulliau gweithredu a'u gweithgareddau gwahanol, mae bob un yn rhannu'r nod gyffredin o hybu datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifanc. Ar brydiau, gellir llesteirio'r nod hwn trwy roi gormod o sylw i weithgaredd penodol, math o chwaraeon efallai, ac felly bydd diffyg sylw i asesu anghenion personol a chymdeithasol pobl ifanc, y camau gweithredu sy'n angenrheidiol i ddiwallu'r anghenion hynny, ac asesu a chofnodi'r hyn a ddysgir gan bob un ohonynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig y dylid ystyried yr angen i weithio gyda'r sector gwaith ieuenctid i greu fframwaith gwerthuso a phecyn cymorth i'w defnyddio, o bosibl, mewn lleoliadau gwaith ieuenctid, yn cynnwys gwaith ieuenctid mewn ysgolion. Bydd y fframwaith a'r pecyn cymorth yn cydnabod y dulliau gweithredu gwahanol ac anghenion amrywiol pobl ifanc, ond serch hynny, bydd ganddynt ddigon o elfennau cyffredin i sicrhau eu bod yn dderbyniol yn gyffredinol ac felly'n cael eu defnyddio ledled y wlad.

## Siarter Gwaith Ieuenctid Cymru

Bydd gan bob person ifanc yng Nghymru hawl i gael mynediad hawdd trwy gyfrwng y Gymraeg neu’r Saesneg at y canlynol:

- Mannau cyfarfod diogel, cynnes a chyflawn, sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau celf a chwaraeon, a phrofiadau newydd.

- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn anturiaethau awyr agored a phrofiadau preswyl a rhyngwladol.

- Cyfleoedd i gymryd rhan mewn penderfyniadau trwy strwythurau anffurfiol a ffurfiol i ymgysylltu â phobl ifanc yn lleol ac yn genedlaethol (e.e. meiri ieuenctid, cynghorau ieuenctid a'r Senedd). Dylai trefniadau o’r fath gyfeirio'n eglur at safonau cyfranogi; dylent fod yn seiliedig ar egwyddorion CCUHP; a dylent geisio ennyn diddordeb pobl ifanc yn y gwaith o lywio a chraffu ar y gwasanaethau sy'n effeithio arnynt.

- Gwybodaeth, arweiniad a chymorth ynghylch materion yn cynnwys cyflogaeth, tai a lles meddyliol y gellir eu cael trwy gyfryngau digidol, a chan oedolion hyfforddedig y gellir ymddiried ynddynt.

- Anogaeth i ddysgu rhagor am eu diwylliant eu hunain a diwylliannau pobl eraill.

- Darpariaeth gydgysylltiedig gan weithwyr ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd a choleg, ymestyn y ‘cynnig i ddisgyblion’ ac felly cyfoethogi’r cwricwlwm ffurfiol a chynorthwyo â datblygiad personol a chymdeithasol.

- Cyfleoedd i fod yn weithredwyr dinesig e.e. trwy wirfoddoli.

- Cydnabyddiaeth a/neu achrediad am eu cyflawniadau o ran datblygiad personol a chymdeithasol mewn ysgolion a cholegau ac yn y gymuned.

**Y Dangosyddion Llesiant Cenedlaethol Arfaethedig**

| | |
|---|---|
| **01** | Babanod a enir yn iach o ran eu pwysau |
| **02** | Disgwyliad oes iach i bawb |
| **03** | Pobl yn dewis ffyrdd o fyw iach |
| **04** | Plant ifanc yn datblygu’r sgiliau iawn |
| **05** | Pobl ifanc yn gadael yr ysgol â sgiliau a chymwysterau |
| **06** | Poblogaeth addysgiedig a medrus |
| **07** | Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant |
| **08** | Pobl mewn gwaith |
| **09** | Gweithlu cynhyrchiol |
| **10** | Busnesau arloesol |
| **11** | Lefelau incwm aelwydydd |
| **12** | Pobl sy’n byw mewn tlodi |
| **13** | Pobl sy’n gallu fforddio nwyddau a gweithgareddau bob dydd |
| **14** | Pobl sy’n fodlon yn eu gwaith |
| **15** | Pobl sy’n fodlon ar yr ardal ble maent yn byw |
| **16** | Naws cymuned |
| **17** | Mae pobl yn teimlo y gallant gyfrannu at benderfyniadau lleol |
| **18** | Pobl sy’n gwirfoddoli |
| **19** | Pobl sy'n fodlon ar eu gallu i gael at gyfleusterau a gwasanaethau |
| **20** | Pobl sy’n teimlo’n ddiogel yn eu cymunedau |
| **21** | Pobl yn teimlo'n unig |
| **22** | Llesiant meddyliol cadarnhaol i bawb |
| **23** | Ansawdd tai |
| **24** | Lefelau digartrefedd |
| **25** | Pobl sy'n ymwneud â’r celfyddydau, diwylliant a threftadaeth |
| **26** | Pobl sy'n defnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau beunyddiol |
| **27** | Pobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon |

http://gov.wales/docs/desh/consultation/151022-fg-act-consultation-document-en.pdf